ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

21.1.22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffwn gyflwyno amserlen ffug arholiadau Bl.11 i chi fydd yn dechrau ar **Chwefror 7fed**. Rydym wedi penderfynu cynnal ffug arholiadau eleni a fydd yn ymdebygu i'r broses arholi allanol yn yr haf. Bydd y broses yn rhoi cyfle i'n myfyrwyr i ymgyfarwyddo â'r trefniadau ac i arbrofi gyda strategaethau adolygu personol. Mae'r disgyblion yn barod wedi derbyn cyflwyniad ar sut i adolygu'n effeithiol a bydd yr athrawon yn parhau i ffocysu ar hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dyma wybodaeth bellach i chi am yr wythnos honno:

- Disgwylir pawb i fod yn bresennol am eu arholiadau – oni bai bod rheswm dilys am yr absenoldeb
- Bydd disgyblion Bl11 yn parhau yn eu gwersi rhwng eu arholiadau.

Rydym yn mawr obeithio y bydd y cyfnod hwn yn brofiad cadarnhaol i'r myfyrwyr ac yn datblygu eu hyder ar gyfer arholiadau allanol yr Haf. Mae'n bwysig felly bod y myfyrwyr yn paratoi ac yn gweld y cyfnod hwn fel cyfle i ddangos eu dysgu ac i dderbyn adborth er mwyn datblygu ymhellach. Yn ogystal â hyn, mae Cymwysterau Cymru a CBAC wedi darparu canllawiau wrth gefn i ysgolion **rhag ofn** na fydd yn bosib cynnal arholiadau. **Os** bydd cyfarwyddiadau yn cyrraedd ysgolion i bennu graddau ar gyfer eu myfyrwyr o ganlyniad i golli arholiad oherwydd y pandemig, bydd y ffug arholiadau yn dystiolaeth gadarn o'u dysgu a'u perfformiad.

Os oes unrhyw gwestiwn pellach gennych, mae croeso i chi gysylltu gyda ni yn yr ysgol.

Yn ddifuant,

Mark Bridgens (Pennaeth Cynorthwyol)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales